Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Allwn ni greu Canolfan Genedlaethol ar gyfer Byw'n Annibynnol yng Nghymru?




Mehefin 2025

# Cynnwys


Am yr adroddiad yma 3

Am Byw’n Annibynnol 5

Beth allai Canolfan Genedlaethol ei wneud 6

Beth wnaethon ni 8

Pwy ddaeth i’r gweithdy ar-lein 11

Beth wnaethon ni ei ddarganfod 12

Byw’n Annibynnol 16

Beth allai Canolfan Genedlaethol ei wneud 20

Mwy o wybodaeth 25

Geiriau anodd 26


Daw’r lluniau yn y ddogfen hon o Photosymbols:
www.photosymbols.com/


OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG52110, ISBN digidol 978-1-83715-869-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Am yr adroddiad yma




Fe wnaethon ni ymchwilio i opsiynau ar gyfer creu Canolfan Genedlaethol ar gyfer Byw'n Annibynnol yng Nghymru.

Roedden ni eisiau gwybod:



- Beth allai Canolfan Genedlaethol ei wneud.
- Sut beth fyddai – er enghraifft, adeilad neu gyfarfodydd ar-lein. Neu lawer o ganolfannau bach yn gweithio gyda'i gilydd.
- Beth fyddai angen i ni ei wneud i'w sefydlu.




Nod Canolfan Genedlaethol fyddai cefnogi pobl anabl i fyw bywydau annibynnol.



Nid oes gennym Ganolfan Genedlaethol ar hyn o bryd.



Dydyn ni ddim yn gwybod sut fyddai Canolfan Genedlaethol yn edrych, na phwy ddylai ei redeg.




Mae’r adroddiad hwn yn ymwneud â’r hyn a ddysgwyd.

# Am Byw'n Annibynnol

Mae Byw'n Annibynnol yn meddwl:

- Byw y bywyd rydych chi ei eisiau.



- Cael rheolaeth o'ch bywyd.

- Gwneud dewisiadau am eich cartref, eich gwaith, eich ysgol a'ch cymuned.

- Cael eich trin â pharch.



i gefnogi

- Cael y gefnogaeth rydych chi ei angen i gael eich cynnwys yn llawn, pan fyddwch chi ei angen.

# Beth allai Canolfan Genedlaethol ei wneud

Fe allai Canolfan Genedlaethol helpu pobl anabl drwy:



- Dysgu pobl am eu **hawl i fyw'n annibynnol**.



- Helpu sefydliadau i weithio gyda phobl anabl.

- Rhannu awgrymiadau gyda sefydliadau sy'n gweithio gyda phobl anabl i gefnogi Byw'n Annibynnol.



- Cefnogi canolfannau a sefydliadau eraill sy'n helpu pobl gyda Byw'n Annibynnol.

- Ei gwneud hi'n haws cael a defnyddio **Taliadau Uniongyrchol** a dod o hyd **Gynorthwywyr Personol**.




Mae **Taliadau Uniongyrchol** yn arian mae eich awdurdod lleol yn ei roi i chi yn lle gwasanaeth. Maen nhw'n talu'r arian i chi, ac yna rydych chi'n defnyddio'r arian hwnnw i brynu gofal a chefnogaeth. Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n talu am eich cynorthwyydd personol eich hun.




Mae **Cynorthwyydd Personol** yn rhywun sy'n cael eu talu i'ch helpu gyda thasgau dyddiol. Maen nhw'n gallu cefnogi gyda gofal personol, coginio, glanhau, a phethau eraill.

# Beth wnaethon ni



Fe wnaethon ni sefydlu tîm ymchwil i edrych ar greu Canolfan Genedlaethol.

Roedd pobl anabl yn rhan o'r tîm ymchwil.



Mae'n bwysig cynnwys pobl anabl mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw.

Roedd gan bobl yn y tîm ymchwil brofiadau gwahanol.




Roedd rhai pobl yn gwybod llawer am hawliau ac ymchwil anabledd.

Roedd gan rai pobl brofiad personol o’r problemau y mae pobl anabl yn eu hwynebu.




Fe wnaeth y tîm ymchwil ysgrifennu syniadau ar gyfer **Canolfan Genedlaethol**.




Fe gafodd gweithdy ei gynnal ar-lein ym mis Hydref 2024.



Yn y gweithdy roedden ni’n siarad am y syniadau.

Ac roedd y tîm ymchwil yn gofyn cwestiynau i bobl fel:



- A ddylai'r Ganolfan fod yn lle corfforol?



- A allai gael ei redeg ar-lein?



- Pwy ddylai ei redeg?

# Pwy ddaeth i'r gweithdy ar-lein



Fe wnaethon ni ofyn i bobl â phrofiadau a gwybodaeth wahanol fod yn rhan o'r gweithdy.




Fe wnaeth 30 o bobl o 19 o wahanol sefydliadau gymryd rhan.




Roedd y tîm ymchwil yn ofalus wrth siarad am eu syniadau. Doedden nhw ddim eisiau newid beth roedd pobl yn feddwl.

# Beth wnaethon ni ei ddarganfod

## Syniadau ar gyfer Canolfan Genedlaethol

Beth mae pobl wedi ei ddweud:



- Rhaid i Ganolfan Genedlaethol gael ei rhedeg gan bobl anabl.

- Fe allai elusennau a grwpiau cymunedol helpu gyda hyn.



- Mae sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd yn syniad da.

Fe ddylai fod yn hawdd i bawb:

- dysgu amdani



- cymryd rhan

- a'i defnyddio.






Fe ddylai pobl allu defnyddio gwasanaethau ar-lein neu yn bersonol.




Fe ddylai Canolfan Genedlaethol weithio ar draws Cymru.

Pe bai mewn 1 lle, fe allai fod yn fwy anodd i bobl sy’n byw ymhellach i ffwrdd fod yn rhan ohono.



Ond mae angen lle y gall pobl fynd iddynt os nad ydyn nhw eisiau defnyddio gwasanaethau ar-lein.



Fe ddylai Canolfan Genedlaethol gael ei hariannu i redeg ei phrif weithgareddau. Ni ddylai orfod dibynnu ar wirfoddolwyr.



Fe ddylai fod â rheolaeth dros ei chynlluniau a’i gweithgareddau ei hun.




Fe fyddai angen iddi fod yn annibynnol – mae hyn yn meddwl peidio â chael ei rheoli gan y llywodraeth.



Mae’n bwysig darganfod beth mae’r cyhoedd ei eisiau a’i angen. Fe allai elusennau a grwpiau cymunedol ein helpu i ddarganfod hynny.

# Byw’n Annibynnol

Beth mae pobl wedi ei ddweud.




Fe ddylen ni gytuno ar ddiffiniad o Fyw’n Annibynnol.



**i ddeall**

Fe fyddai diffiniad yn helpu pobl i ddeall eu hawliau.




Fe fyddai diffiniad hefyd yn ein helpu i ddeall sut i gefnogi pobl anabl.



Mae Byw'n Annibynnol yn meddwl gofal cymdeithasol da.




Mae hefyd yn meddwl bod yn rhan llawn o'r gymuned a chael bywyd da.

Nid dim ond gwneud pethau ar eich pen eich hun neu fyw ar eich pen eich hun.



Rhaid i bobl anabl fod yn rhan o wneud penderfyniadau.

Mae gwahaniaeth rhwng pa gymorth **ddylai** fod ar gael, a pha gefnogaeth **sydd** ar gael.

Mae cefnogaeth sy'n **canolbwyntio ar unigolion** yn bwysig.




Mae **canolbwyntio ar unigolion** yn meddwl canolbwyntio ar beth mae pob person ei eisiau a'i angen.



Dewisiadau

Fe ddylai pobl anabl allu gwneud dewisiadau am gymorth.

Mae **elusennau a grwpiau cymunedol** yn darparu gwasanaethau pwysig. Maen nhw'n helpu i hyrwyddo Byw'n Annibynnol.



Dydy llawer o bobl ddim yn cael gwybodaeth mewn ffordd maen nhw'n gallu ei ddeall.



Mae hyn yn ei gwneud hi'n fwy anodd iddyn nhw wneud dewisiadau.

Dydy gwasanaethau ddim bob amser yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn.




Mae gwahanol wasanaethau ar gael mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae hyn yn gallu effeithio ar y gefnogaeth mae pobl anabl yn ei gael.

# Beth allai Canolfan Genedlaethol ei wneud

Beth mae pobl wedi ei ddweud.

Roedd pobl yn hoffi syniadau'r tîm ymchwil, fel:




- Cynnwys pobl anabl mewn penderfyniadau i gefnogi Byw'n Annibynnol.



- Casglu a rhannu gwybodaeth i helpu i wneud polisïau gwell.

- Dysgu pobl i newid agweddau am Fyw Annibynnol.



- Gwneud arweiniad a hyfforddiant am y ffyrdd gorau o gefnogi Byw'n Annibynnol.



- Edrych ar y gwaith mae'r Ganolfan Genedlaethol yn ei wneud i wneud yn siŵr ei fod yn gwneud beth mae'n ddweud.




- Fe ddylai Canolfan Genedlaethol gael ei arwain gan bobl anabl.

Fe ddylai pobl anabl gael dweud eu dweud a chael eu cynnwys ar bob lefel.



Fe ddylai pobl anabl gael eu cynnwys ym mhob penderfyniad a pholisi sy'n effeithio ar bobl anabl. Fe allai Canolfan Genedlaethol helpu gyda hyn.




Fe ddylai fod hyfforddiant i helpu pobl anabl i fod yn rhan o wneud penderfyniadau.

Fe allai hyn fod trwy baneli neu drwy ddweud beth maen nhw'n feddwl.




Fe ddylai pobl anabl gael eu talu'n deg pan fyddan nhw'n gweithio ar benderfyniadau. Fel hyn, fe fyddai mwy o leisiau'n cael eu clywed.

Fe allai Canolfan Genedlaethol helpu i wneud newid i bobl anabl.




Fe fyddai Canolfan Genedlaethol yn cynrychioli beth mae pobl anabl ei angen a'i eisiau.




Fe allai hefyd siarad am brofiadau pobl anabl a sut beth ydy bywyd iddyn nhw.

Fe fyddai hyn yn helpu'r cyhoedd i ddeall yr hawl i Fyw'n Annibynnol yn well.



**Wasanaethau cyfartal**

Fe allai Canolfan Genedlaethol helpu i wneud yn siŵr bod mwy o wasanaethau cyfartal ar draws Cymru.

Fe allai gasglu gwybodaeth a thystiolaeth i helpu i wneud penderfyniadau da.



**i gefnogi**

Fe allai Canolfan Genedlaethol helpu i gefnogi sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau i bobl anabl.



Fe allai hefyd helpu sefydliadau i weithio gyda'i gilydd yn well. Gellir gwneud hyn trwy bethau fel hyfforddi a rhannu'r ffyrdd gorau o weithio.



Mae cyllid ar gyfer elusennau a grwpiau cymunedol yn bwysig. Mae llawer ohonyn nhw angen gwirfoddolwyr i wneud y gwaith maen nhw'n ei wneud.



Fe allai Canolfan Genedlaethol ddarparu hyfforddiant lle mae bylchau mewn gwasanaethau.

# Mwy o wybodaeth




Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o adroddiad Llywodraeth Cymru.

Rydych chi'n gallu darllen y fersiwn wreiddiol yma: www.llyw.cymru/ymchwil-ynghylch-y-posibilrwydd-o-sefydlu-canolfan-genedlaethol-bywn-annibynnol-yng-nghymru

I gael rhagor o wybodaeth am y gwaith yma, rydych chi'n gallu:




E-bostio ni: YrUnedTystiolaethCydraddoldeb@llyw.cymru

Mae Hawdd ei Ddeall Cymru wedi ysgrifennu'r testun Hawdd ei Ddeall yma. I ddweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl am y fersiwn hawdd ei ddeall yma, cliciwch yma.

# Geiriau anodd

## Taliadau Uniongyrchol

Mae Taliadau Uniongyrchol yn arian mae gwasanaethau cymdeithasol yn ei roi i chi yn lle gwasanaeth. Maen nhw'n talu'r arian i chi ac rydych chi'n defnyddio'r arian yna i brynu gofal a chymorth. Er enghraifft, efallai y byddwch chi'n talu am eich cynorthwy-ydd personol eich hun.

## Cynorthwyydd Personol

Mae Cynorthwyydd Personol yn rhywun sy'n cael eu talu i'ch helpu chi gyda thasgau dyddiol. Maen nhw'n gallu cefnogi gyda gofal personol, coginio, glanhau, a phethau eraill.

## Canolbwyntio ar unigolion

Mae canolbwyntio ar unigolion yn meddwl canolbwyntio ar beth mae pob person ei eisiau a'i angen.